Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sefydlodd ymfudwyr o Gymru lawer o gymunedau Cymreig yn Unol Daleithiau America. Ond, ymhen amser, dechreuodd y Gymraeg golli tir yn y cymunedau hynny, ac roedd hyn yn destun pryder i weinidog o'r Bala o'r enw Michael D Jones. Roedd e'n credu y dylai ymfudwyr o Gymru symud i rywle pell gyda'i gilydd, lle na fydden nhw'n cael eu hamgylchynu gan yr iaith Saesneg ac yn colli eu Cymraeg. Breuddwyd Michael D Jones oedd creu Cymru newydd ym mhen draw'r byd, lle byddai'r Gymraeg yn iaith swyddogol, a phawb yn rhydd i addoli trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ei farn e, roedd Patagonia yn lleoliad perffaith ar gyfer y Gymru newydd hon.

Dechreuodd Michael D Jones ysgrifennu llythyrau i bapurau newydd Cymraeg i annog pobl i ymfudo i Batagonia. Cynhaliodd gyfarfodydd cyhoeddus a ffurfiwyd cymdeithasau ledled Cymru i hyrwyddo'r Wladfa newydd. Roedd Edwin Cynrig Roberts a Lewis Jones hefyd yn rhan allweddol o'r trefniadau.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn

Ar yr 28ain o Fai 1865, gadawodd Y Mimosa ddociau Lerpwl. Roedd 160 o bobl ar ei bwrdd, yn awyddus i ddechrau bywyd newydd ym Mhatagonia. Roedd hi'n fordaith hir, a'r amodau ar y llong yn ofnadwy. Bu farw pump o blant a bu llawer o bobl yn sâl iawn.

Glaniodd y llong ym Mhorth Madryn ar yr 28ain o Orffennaf. Roedd hi'n ganol gaeaf a chafodd y Cymry siom o weld tir llwm y Paith wrth gerdded 37 milltir i gyrraedd eu tiroedd yn Nyffryn Camwy, sef pentref y Gaiman heddiw. Roedd trefnwyr yr ymfudo wedi addo tiroedd gwyrdd ffrwythlon iddyn nhw.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn

Roedd blynyddoedd cyntaf y Wladfa yn galed iawn. Glowyr o gymoedd de Cymru oedd llawer o'r ymfudwyr cynnar, ac ychydig o ffermwyr a oedd yn eu plith. Methodd y cynaeafau cyntaf ac roedd bwyd yn brin. Symudodd rhai gwladfawyr i Ganada ac Awstralia oherwydd eu siom. Ond, diolch i Rachel ac Aaron Jenkins o Aberpennar, cafwyd cynhaeaf llwyddiannus yn 1868 ar ôl iddyn nhw greu cyfres o gamlesi i ddyfrhau'r tir – system sy'n dal i gael ei defnyddio heddiw.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn

Er gwaethaf caledi'r blynyddoedd cyntaf a llifogydd difrifol ar fwy nag un achlysur, roedd poblogaeth Dyffryn Camwy yn tyfu, a'r Wladfa'n ffynnu diolch i lwyddiant y cnydau gwenith a mentrau fel Cwmni Masnachol Camwy. Adeiladwyd llawer o gapeli trwy'r Dyffryn ac roedd plant y Wladfa yn derbyn eu haddysg i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg – hyd yn oed Mathemateg! Ni ddigwyddodd hynny am flynyddoedd maith yng Nghymru. Roedd y Wladfa ar flaen y gad mewn ffordd arall hefyd; roedd pawb dros ddeunaw oed – dynion a menywod - yn cael pleidleisio yn etholiadau Cyngor y Wladfa. Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y Wladfa oedd un o'r lleoedd mwyaf democrataidd yn y byd.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn

Rhwng 1883 ac 1909, oherwydd prinder tir ffermio yn Nyffryn Camwy, dechreuodd y Cymry chwilio am diroedd yn yr Andes. Yn 1885, aeth criw o ddynion o'r enw'r Rifleros ar daith ar gefn ceffylau o Ddyffryn Camwy i'r Andes i hawlio tiroedd newydd. Dyma pryd y cyrhaeddwyd Cwm Hyfryd, a gafodd ei enw oherwydd ei fod mor wyrdd a ffrwythlon o'i gymharu â thir llwm y paith. Sefydlwyd Trevelin a dinas Esquel yn yr ardal hon.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn

Rhwng 1886 ac 1911, ymfudodd tua 1,000 o Gymry i'r Wladfa, ond daeth yr ymfudo i ben wedi hynny oherwydd y ddau Ryfel Byd. Erbyn canol yr ugeinfed ganrif, roedd nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng a Llywodraeth yr Ariannin yn rhoi pwysau ar bawb i siarad Sbaeneg a chael addysg Sbaeneg. Roedd rhai pobl yn ofni siarad Cymraeg yn gyhoeddus ac roedd hi'n iaith gyfrinachol i lawer.

Ar ôl dathliadau canmlwyddiant y Wladfa yn 1965, daeth tro ar fyd wrth i'r cyswllt rhwng Cymru a'r Wladfa gryfhau. Dechreuodd athrawon fynd i'r Wladfa i ddysgu Cymraeg yn wirfoddol, ac yn 1997, sefydlwyd cynllun gan y Cyngor Prydeinig a'r Swyddfa Gymreig i anfon athrawon Cymraeg i'r Wladfa bob blwyddyn. Erbyn hyn, Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Prydeinig sy'n cynnal y cynllun, ac mae ysgolion dwyieithog wedi'u sefydlu yn Nyffryn Camwy a'r Andes. Nid dim ond disgynyddion y Cymry sy'n dysgu Cymraeg ac yn anfon eu plant i ysgolion dwyieithog; mae pobl o bob tras a chefndir yn falch o draddodiadau Cymreig y Wladfa ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau fel Eisteddfod y Wladfa.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG

Dysgu
Learn